

Y Teulu

Darlleniad: Effesiaid 2: 19-22, 4: 2-7, 5: 1-2, 8-21

Diolch i ti, ein Tad, am roi inni'r profiad o fyw fel teulu. Pan yw eraill yn troi i'n herbyn, yn ein gwawdio, yn ein dirmygu a'n bwrw i lawr, gallwn droi at y teulu am swcwr, am gymorth cyntaf (yn ôl y Ffrangeg *secours*). Mae aelodau'r teulu'n ein derbyn fel yr ydym, yn gymysgedd ryfedd o orchestion a gallu, o wendidau a methiant. Iddynt hwy, does dim rhaid inni lwyddo ym mhob peth - dim ond bod yn ni'n hunain, y person y maen nhw'n ei adnabod a'i garu. Mynnant ein bod yn rhan fyw o'u byd a'u profiad, beth bynnag ddaw i'n rhan. Maent yn chwilio am barhad y cwlwm personol, y cwlwm cariad sy'n ein dal ynghyd. Oherwydd hwnnw sy'n rhoi nerth i'r teulu a'i holl aelodau yn wyneb pawb a phopeth. Rhown loches i'n gilydd, gan atgyfnerthu ac ailadeiladu yn ôl yr angen unigol, er mwyn llwyddo fel uned fyw.

Diolch i ti am estyn y darlun o'r teulu i'th Eglwys - pobl, teulu Iesu Grist. 'Tra bydd amser gennym,' medd y Gair, 'gadewch inni wneud da i bawb, yn enwedig i'r rhai sydd o deulu'r ffydd.' Cwlwm dy gariad di sy'n ein clymu ynghyd yma eto. Gallwn fwynhau a dioddef egni chwareus a direidus y plant, tafod miniog eu rhieni mewn clod a beirniadaeth, cwynion a chwerthin yr aelodau canol oed, a rhyfeddod llygatrwrth yr hynafiaid yn ein plith. Daw'r chwarae a'r gweddio, y gwasanaethu a'r cyfeillachu, y canu a'r addoli oll yn gytsain fyw. A gwelwn nad yw ffiniau cymdeithas y teulu hwn yn gorwedd o fewn un wlad ac un ardal. Teimlwn y berthynas yng Nghrist wrth gwrdd â'r bobl o Korea, Sri Lanka, Burkina Faso a'r holl wledydd - o'r cyfoethocaf i'r tlotaf ohonynt. A'r un cwlwm sydd yno rhwng aelod ac archesgob, rhwng meudwy a mynach a rhiant meidrol. Maent oll yn un ynot ti.

Efallai mai hon yw'r rhodd fwyaf sydd gennym heddiw i'w chyflwyno i'r teulu cyfan, teulu dyn. Cymundeb a chymuned, y cwlwm cariad na ellir ei ddatod pan y'i clymir yn iawn. Hyn sy'n ein huno â'n gilydd ac yn ein huno gyda thi.

‘Yr wyf fi wedi rhoi iddynt hwy y gogoniant a roddaist ti i mi, er mwyn iddynt fod yn un fel yr ydym ni yn un: myfi ynddynt hwy, a thydi ynof fi, a hwythau, felly, wedi eu dwyn i undod perffaith, er mwyn i’r byd wybod mai tydi a’m hanfonodd i, ac i ti eu caru hwy fel y ceraist fi.’

Diolch i ti am y cymorth a gawn gennynt yn y teulu. Diolch i ti am ein derbyn ni fel yr ydym ni, yn Iesu Grist, ‘D’allu Di a’m gwna yn agos - ‘F’wyllys i yw mynd ymhell ... ’

Does dim rhaid inni ymddangos yn llwyddiant mawr i ti - dim ond bod yn ni’n hunain, y rhai yr wyt ti’n eu hadnabod a’u caru. Rwynt am inni gymryd ein lle yn y teulu. Rwynt am inni gyflawni ein ‘haddoliad ysbrydol’ (neu’n ‘rhesymol wasanaeth’ yn ôl yr hen gyfieithiad o’r Beibl) drwy ein rhoi ein hunain i ti.

Trawsffurfia ni, felly; adnewyddu’n meddwl ni; galluoga ni i ganfod yr hyn sy’n dda a derbyniol a pherffaith yn dy olwg di. Trwy Iesu Grist. Amen.

Roger Ellis Humphreys